**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 1025 (Cy.122)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, a wnaed o dan adrannau 29(3), 408, 537, 537A(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996, yn gymwys mewn perthynas ag ysgolion yng Nghymru. Maent yn cydgyfnerthu, gyda diwygiadau, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 1998, fel y'u diwygiwyd, ac yn eu dirymu.

Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â chasglu gwybodaeth am berfformiad ysgolion.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau cyffredinol.

Mae Rhan 2 yn gosod dyletswyddau ar benaethiaid ysgolion a gynhelir i drefnu bod gwybodaeth ar gael i gyrff llywodraethu er mwyn eu galluogi i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn (rheoliad 5).

Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau manwl sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i awdurdodau addysg lleol.

Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddarparu gwybodaeth am ganlyniadau asesiadau ar y cyfnod allweddol cyntaf i'r awdurdodau addysg lleol (rheoliad 6 ac Atodlen 1).

Rhaid i'r awdurdod addysg lleol roi gwybodaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ganlyniadau asesiadau cyfnod allweddol cyntaf ar gyfer pob disgybl cofrestredig yng nghyfnod allweddol cyntaf yn yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod (rheoliad 7 ac Atodlen 1).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 1025 (W.122)

# EDUCATION, WALES

## The Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, made under sections 29(3), 408, 537, 537A(1) and (2) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996, apply in relation to schools in Wales. They consolidate, with amendments, the Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 1998, as amended, which are revoked.

The Regulations relate to the collection of information about the performance of schools.

Part 1 of the Regulations comprises general provisions.

Part 2 imposes duties on head teachers of maintained schools to make available information to governing bodies for the purpose of enabling them to comply with their obligations under these Regulations (regulation 5).

Part 3 contains detailed provisions relating to the provision of information to the National Assembly for Wales and to local education authorities.

Governing bodies of maintained schools must provide local education authorities with information about first key stage assessment results (regulation 6 and Schedule 1).

The local education authority must provide the National Assembly for Wales with information about first key stage assessment results on all registered pupils in the first key stage at the schools maintained by the authority (regulation 7 and Schedule 1).

Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a pherchenogion ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol nas cynhelir sydd â disgyblion 15, 16, 17 neu 18 oed roi gwybodaeth benodedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am eu canlyniadau (rheoliad 8 ac Atodlen 2).

Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a pherchenogion ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig nas cynhelir roi gwybodaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am absenoldebau sydd wedi'u hawdurdodi a'r rhai heb eu hawdurdodi (rheoliad 9).

Mae Rhan 4 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir roi gwybodaeth i'r Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol (corff sy'n cydlynu gwybodaeth am ganlyniadau asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol disgyblion) a'r asiantaeth farcio allanol (corff sy'n marcio ymatebion disgyblion i brofion Cwricwlwm Cenedlaethol) am ddisgyblion unigol sy'n ymwneud â disgyblion sydd ar ddiwedd neu ar drothwy diwedd blwyddyn olaf yr ail neu'r trydydd cyfnod allweddol (rheoliadau 10 ac 11 ac Atodlen 3).

Governing bodies of maintained schools and proprietors of non-maintained special schools and independent schools with pupils aged 15, 16, 17 or 18 must provide the National Assembly for Wales with specified information about their results (regulation 8 and Schedule 2).

Governing bodies of maintained schools and the proprietors of independent and non-maintained special schools must provide the National Assembly for Wales with information about authorised and unauthorised absences (regulation 9).

Part 4 requires governing bodies of maintained schools to provide, respectively, the National Data Collection Agency (a body which collates information about pupils' National Curriculum assessment results) and the external marking agency (a body which marks pupils' responses to National Curriculum tests) with individual pupil information relating to pupils who are eligible for assessment in the second or third key stage (regulations 10 and 11 and Schedule 3).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 1025 (Cy.122)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *30 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | *30 Ebrill 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 29(3), 408, 537, 537A(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**) ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd ymgynghori â hwy yn ymddangos i'r Cynulliad ei fod yn ddymunol:

**RHAN 1**

Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 30 Ebrill 2004.

(a) 1996 p.56. Amnewidiwyd adran 29(3) gan baragraff 67 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Diwygiwyd adran 408 gan baragraff 30 o Atodlen 7 ac Atodlen 8 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), paragraffau 57 a 106 o Atodlen 30 a 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraff 57 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21). Diwygiwyd adran 537 gan baragraff 37 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997, paragraffau 57 a 152 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraff 60 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. Amnewidiwyd adran 573A gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 1025 (W.122)

# EDUCATION, WALES

## The Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *30th March 2004* |
| *Coming into force* | *30th April 2004* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 29(3), 408, 537, 537A(1) and (2) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**a**) and now vested in the National Assembly for Wales(**b**) and after consulting with those persons with whom consultation appeared to the National Assembly for Wales to be desirable pursuant to section 408(5) of the Education Act 1996:

**PART 1**

General

**Name, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations are called the Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 2004 and come into force on 30th April 2004.

(a) 1996 c.56. Section 29(3) was substituted by paragraph 67 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31). Section 408 was amended by paragraph 30 of Schedule 7 and Schedule 8 to the Education Act 1997 (c.44), paragraphs 57 and 106 of Schedule 30 and Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998 and paragraph 57 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000 (c.21). Section 537 was amended by paragraph 37 of Schedule 7 to the Education Act 1997, paragraphs 57 and 152 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 and paragraph 60 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000. Section 537A was substituted by paragraph 153 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998. For the meaning of "prescribed" and "regulations" *see* section 579(1) of the Education Act 1996.

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (1999/672).

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

**Dehongli**

**2**.-(1) Yn y rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr "absenoldeb heb ei awdurdodi" ("*unauthorised absence*") yw achlysur pan gofnodir disgybl yn absennol heb awdurdod yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 ac mae "absenoldeb wedi'i awdurdodi" ("*authorised absence*") i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "ACCAC" ("*ACCAC*") yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (neu the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales)(**a**);

ystyr "asesiadau statudol" ("*statutory assessments*") yw trefniadau'r asesiadau hynny a bennir gan y Cynulliad mewn gorchymyn a wneir o dan adran 108(3)(c) o Ddeddf 2002 ac mae "lefel" ("*level*") i'w ddehongli yn unol â darpariaethau'r gorchymyn hwnnw;

ystyr "Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol" ("*National Data Collection Agency*") yw corff sydd, at ddibenion neu mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Cynulliad sy'n ymwneud ag addysg, yn gyfrifol am gydlynu gwybodaeth sy'n ymwneud â disgyblion;

ystyr "asiantaeth farcio allanol" ("*external marking agency*") yw corff a enwebwyd gan ACCAC ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad i farcio profion y Cwricwlwm Cenedlaethol;

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw-

(i) mewn perthynas ag ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol, yr awdurdod hwnnw; a

(ii) mewn perthynas ag ysgol arbennig neu ysgol annibynnol nas cynhelir, yw'r awdurdod addysg lleol y lleolir yr ysgol yn ei ardal;

ystyr "blwyddyn adrodd yr ysgol" ("*reporting school year*") yw'r flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol y mae'r wybodaeth a roir i'r Cynulliad i'w gyhoeddi gan y Cynulliad neu, yn ôl y digwydd, yr awdurdodau addysg lleol;

mae i "blwyddyn ysgol" yr ystyr a roddir i "*school year*" gan adran 579(1) o Ddeddf 1996(**b**);

(a) *Gweler* adran 27 o Ddeddf Addysg 1997.

(b) Diwygiwyd adran 579(1) gan baragraff 43 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997.

(2) These Regulations apply only in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**.-(1) In these Regulations, except where the context otherwise requires-

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996;

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002(**a**);

"ACCAC" ("*ACCAC*") means the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales or Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru(**b**);

"approved external qualification" ("*cymhwyster allanol a gymeradwywyd*") is a qualification within the meaning of section 96(5) of the Learning and Skills Act 2000(**c**) that was, at the relevant time, approved under section 99 of that Act for the purposes of section 96 of that Act;

"authority" ("*awdurdod*") means-

(i) in relation to a school maintained by a local education authority that authority; and

(ii) in relation to a non-maintained special school or an independent school, the local education authority in whose area the school is situated;

"external marking agency" ("asiantaeth farcio allanol") means a body nominated by ACCAC and approved by the National Assembly to mark NC tests;

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") means-

(i) any community, foundation or voluntary school, or

(ii) any community or foundation special school which is not established in a hospital,

but excludes any nursery school;

"the National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"National Data Collection Agency" ("*Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol*") means a body which, for the purposes of or in connection with the functions of the National Assembly relating to education, is responsible for collating information relating to pupils;

(a) 2002 c.32.

(b) *See* section 27 of the Education Act 1997.

(c) 2000 c.21.

ystyr "Canllawiau ar yr Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd" ("*Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance*") yw'r canllawiau a gyhoeddir gan ACCAC bob blwyddyn ysgol ar weinyddiaeth yr asesiadau statudol;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae "cymhwyster allanol a gymeradwywyd" ("*approved external qualification*") yn gymhwyster o fewn ystyr adran 96(5) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**a**) a gafodd ei gymeradwyo, ar yr adeg berthnasol, o dan adran 99 o'r Ddeddf honno at ddibenion adran 96 o'r Ddeddf honno;

mae i " diwrnod ysgol" yr ystyr a roddir i "*school day*" gan adran 579(1) o Ddeddf 1996;

ystyr " Ddeddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "Ddeddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**b**);

ystyr "NQF" ("*NQF*") yw Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n cynnwys cymwysterau achrededig gan ACCAC, yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm a Chyngor Gogledd Iwerddon ar gyfer Arholiadau Cwricwlwm ac Asesiadau ac ystyr "lefel NQF" ("*NQF level*") yw'r lefel(au) yr achredir y cymwysterau o fewn NQF;

ystyr "profion Cwricwlwm Cenedlaethol" a "thasgau Cwricwlwm Cenedlaethol" ("*NC tests" and "NC tasks*") yn eu trefn, yw profion Cwricwlwm Cenedlaethol a thasgau Cwricwlwm Cenedlaethol a roddir i ddisgyblion yn unol â'r trefniadau statudol;

ystyr "pynciau perthnasol" ("*relevant subjects*") yw-

(a) o ran asesiad athrawon ac unrhyw gyfnod allweddol, yr holl bynciau hynny y mae'n ofynnol i'r disgybl neu'r disgyblion sy'n eu hastudio gael eu hasesu drwy asesiad athrawon;

(b) o ran profion Cwricwlwm Cenedlaethol ac unrhyw gyfnod allweddol, yr holl bynciau hynny y mae'n ofynnol i'r disgybl neu'r disgyblion sy'n eu hastudio gael eu hasesu drwy roi'r cyfryw brofion; ac

(c) o ran tasgau Cwricwlwm Cenedlaethol ac unrhyw gyfnod allweddol, yr holl bynciau hynny y mae'n ofynnol rhoi'r tasgau arnynt i'r disgybl neu'r disgyblion sy'n eu hastudio,

yn y cyfnod allweddol hwnnw yn unol â'r trefniadau statudol;

(a) 2000 p.21.

(b) 2002 p.32.

"NC tests" ("*profion y Cwricwlwm Cenedlaethol*") and "NC tasks" ("tasgau'r Cwricwlwm Cenedlaethol") mean, respectively, National Curriculum tests and National Curriculum tasks administered to pupils in accordance with the statutory assessments;

"non-maintained special school" ("*ysgol arbenig nas gynhelir*") means a special school which is not maintained by an authority;

"NQF" ("*NQF*") means the National Qualifications Framework comprising qualifications accredited by ACCAC, the Qualifications and Curriculum Authority and the Northern Ireland Council for the Curriculum Examinations and Assessment and "NQF level" ("*lefel NQF*") means the level(s) to which qualifications are accredited within the NQF;

"relevant subjects" ("*pynciau perthnasol*") means-

(a) in relation to teacher assessment and any key stage, all those subjects in respect of which the pupil or pupils concerned are required to be assessed by teacher assessment;

(b) in relation to NC tests and any key stage, all those subjects in respect of which the pupil or pupils concerned are required to be assessed by the administration of such tests; and

(c) in relation to NC tasks and any key stage, all those subjects in respect of which such tasks are required to be administered to the pupil or pupils concerned,

in that key stage in accordance with the statutory assessments;

"reporting school year" ("*blwyddyn adrodd yr ysgol*") means the school year immediately preceding the school year in which information provided to the National Assembly is to be published by the National Assembly or, as the case may be, local education authorities;

"school day" ("*diwrnod ysgol*") has the meaning given by section 579(1) of the 1996 Act(**a**);

"school year" ("*blwyddyn ysgol*") has the meaning given by section 579(1) of the 1996 Act;

"special school" ("*ysgol arbennig*") has the meaning given by section 337 of the 1996 Act(**b**);

"Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance" ("*Canllawiau ar yr Asesu Stadudol a'r Trefniadau Adrodd*") means the guidance published by ACCAC each school year on the administration of statutory assessments;

"statutory assessments" ("*asesiadau statudol*")

(a) Section 579(1) was amended by paragraph 43 of Schedule 7 to the Education Act 1997.

(b) Section 337 was substituted by paragraphs 57 and 80 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998.

ystyr "rhif unigryw disgybl" ("*unique pupil number*") yw cyfuniad o rifau sydd ynghyd â llythyren neu lythrennau yn cael ei ddyrannu i ddisgybl ac sy'n benodol i'r disgybl hwnnw, drwy ddefnyddio fformiwla a benderfynwyd gan y cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw-

(i) unrhyw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol, neu

(ii) unrhyw ysgol gymunedol arbennig neu ysgol sefydledig arbennig na chafodd ei sefydlu mewn ysbyty,

ond nid yw'n cynnwys unrhyw ysgol feithrin;

mae i "ysgol arbennig" yr ystyr a roddir i "*special school*" gan adran 337 o Ddeddf 1996 (**a**); ac

ystyr "ysgol arbennig nas cynhelir" ("*non-maintained special school*") yw ysgol arbennig nas cynhelir gan awdurdod.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall -

(a) mae cyfeiriadau at ddisgyblion o oedran penodol yn gyfeiriad at ddisgyblion a gyrhaeddodd yr oedran hwnnw yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis a ddaeth i ben ar 31 Awst cyn dechrau blwyddyn adrodd yr ysgol, pan fo blwyddyn adrodd yr ysgol yn cychwyn ar ôl y dyddiad hwnnw, neu'r 31 Awst sy'n dod ym mlwyddyn adrodd yr ysgol, pan fo blwyddyn adrodd yr ysgol yn dechrau ar neu o flaen y dyddiad hwnnw, ac yr oeddent yn ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y trydydd dydd Iau yn Ionawr ym mlwyddyn adrodd yr ysgol;

(b) mae cyfeiriadau at gymwysterau allanol a gymeradwywyd y rhoddwyd enwau disgyblion yn yr ysgol ar eu cyfer yn cynnwys cymwysterau allanol a gymeradwywyd y rhoddwyd eu henwau ar eu cyfer er nad ydynt yn unol ag adran 402 o Ddeddf 1996(**b**); ac

(c) mae cyfeiriadau at gyfnodau allweddol yn gyfeiriadau at y cyfnodau a nodir yn adran 103(1) o Ddeddf 2002.

(3) Pan fydd y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei throsglwyddo mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, gellir bodloni'r gofyniad hwnnw drwy drosglwyddo'r wybodaeth-

(a) drwy wefan ryngrwyd ddiogel a ddarparwyd i'r diben hwnnw gan neu ar ran y Cynulliad Cenedlaethol,

(a) Amnewidiwyd adran 337 gan baragraffau 57 ac 80 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(b) Diwygiwyd adran 402 gan baragraffau 57 a 101 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a chan baragraff 45 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002.

means such assessment arrangements as are specified by the National Assembly in an order made under section 108(3)(c) of the 2002 Act and "level" ("*lefel*") is to be construed in accordance with the provisions of such orders;

"unauthorised absence" ("*absenoldeb heb ei awdurdodi*") means an occasion on which a pupil is recorded as absent without authority pursuant to the Education (Pupil Registration) Regulations 1995 and "authorised absence" ("*absenoldeb wedi'i awdurdodi*") is to be construed accordingly; and

"unique pupil number" ("*Rhif unigryw disgybl*") means a combination of numbers which together with a letter or letters is allocated to a pupil and are particular to that pupil, by use of a formula determined by the National Assembly.

(2) In these Regulations, except where the context otherwise requires-

(a) references to pupils of a particular age are to pupils who attained that age during the period of twelve months ending on the 31st August preceding the commencement of the reporting school year, where the reporting school year begins after that date, or the 31st August which falls within the reporting school year, where the reporting school year begins on or before that date, and who were registered pupils at the school on the third Thursday in January in the reporting school year;

(b) references to approved external qualifications for which pupils at the school were entered include approved external qualifications for which they were entered otherwise than in pursuance of section 402 of the 1996 Act(**a**); and

(c) references to key stages are references to the periods set out in section 103(1) of the 2002 Act.

(3) Where these Regulations require or permit information to be transferred in machine readable form, that requirement may be met by transferring the information-

(a) through a secure internet website provided for that purpose by or on behalf of the National Assembly,

(a) Section 402 was amended by paragraphs 57 and 101 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 and by paragraph 45 of Schedule 21 to the Education Act 2002.

(b) drwy ddisg hyblyg, neu

(c) drwy fewnrwyd a ddarparwyd i'r diben hwnnw gan neu ar ran awdurdod, ac at ddibenion y rheoliad hwn ystyr mewnrwyd yw rhwydwaith caëedig na ellir ei gyrchu ond gan y canlynol-

(i) yr awdurdod,

(ii) gan neu ar ran corff llywodraethu ysgol o fewn yr awdurdod hwnnw,

(iii) gan athro neu athrawes mewn ysgol yn yr awdurdod hwnnw.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyrhaeddiad gan ddisgybl y penderfynir arno gan brawf Cwricwlwm Cenedlaethol neu dasg Cwricwlwm Cenedlaethol yn ystod blwyddyn ysgol flaenorol neu unrhyw gymhwyster allanol a gymeradwywyd y rhoddwyd enw'r disgybl ar ei gyfer yn ystod blwyddyn ysgol flaenorol i'w drin fel cyrhaeddiad o'r fath neu roi enw ar gyfer y cymhwyster yn ystod blwyddyn adrodd yr ysgol.

(5) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at reoliad neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad neu Atodlen at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw neu yn yr Atodlen honno sy'n dwyn y rhif hwnnw.

**Goleddfiad ar y dyletswyddau**

**3**. Mae dyletswyddau cyrff llywodraethu, awdurdodau a pherchenogion i drefnu bod gwybodaeth ar gael neu roi gwybodaeth yn gymwys yn unig i'r graddau bod yr wybodaeth ar gael iddynt mewn da bryd fel ei fod yn rhesymol ymarferol iddynt drefnu bod yr wybodaeth ar gael, yn cael ei rhoi neu ei chyhoeddi o flaen yr achlysur hwyraf y mae'n ofynnol bod yr wybodaeth ar gael, yn cael ei rhoi neu ei chyhoeddi, yn ôl y digwydd.

**Dirymu ac arbedion**

**4**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dirymir y Rheoliadau y cyfeirir atynt yn Atodlen 4.

(2) Nid yw dirymiad y Rheoliadau y cyfeirir atynt yn Atodlen 4 i ryddhau unrhyw berson o unrhyw ddyletswydd i drefnu bod gwybodaeth ar gael, ei rhoi neu ei chyhoeddi na chafodd ei chyflawni cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(b) by floppy disk, or

(c) through an intranet provided for that purpose by or on behalf of an authority, and for the purposes of this regulation an intranet means a closed network that can only be accessed-

(i) by the authority,

(ii) by or on behalf of a governing body of a school within that authority,

(iii) by a teacher at a school within that authority.

(4) For the purposes of these Regulations any attainment of a pupil determined by an NC test or NC task during a previous school year or any approved external qualification for which a pupil was entered during a previous school year is to be treated as such an attainment or entry during the reporting school year.

(5) In these Regulations, unless the context otherwise requires, any reference to a numbered regulation or Schedule is a reference to the regulation or Schedule bearing that number in these Regulations and any reference in a regulation or Schedule to a numbered paragraph is to the paragraph in that regulation or Schedule bearing that number.

**Qualification of duties**

**3**. The duties of governing bodies, authorities and proprietors to make available or provide information apply only to the extent that that information is available to them in time for it to be reasonably practicable for them to make available, provide or publish that information before the latest occasion on which that information is required to be made available, provided or published, as the case may be.

**Revocations and savings**

**4**.-(1) Subject to paragraph (2), the Regulations referred to in Schedule 4 are revoked.

(2) The revocation of the Regulations referred to in Schedule 4 is not to relieve any person of any duty to make available, provide or publish information which has not been performed before the date that these Regulations come into force.

## RHAN 2

Darparu gwybodaeth gan y pennaeth

**Darparu gwybodaeth gan y pennaeth i'r corff llywodraethu**

**5**. Rhaid i bennaeth pob ysgol a gynhelir bob blwyddyn drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r corff llywodraethu ynghylch y materion a grybwyllir yn Atodlenni 1 i 3 er mwyn galluogi'r corff llywodraethu i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau mewn perthynas â'r materion hynny.

## RHAN 3

Darparu gwybodaeth i'r Cynulliad a'r Awdurdodau Addysg Lleol

**Darparu canlyniadau asesiadau cyfnod allweddol cyntaf i awdurdodau addysg lleol**

**6**. Rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir, sydd ym mlwyddyn adrodd yr ysgol, â disgyblion cofrestredig yn y cyfnod allweddol cyntaf sy'n gymwys i asesiadau statudol bob blwyddyn ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod sy'n ymwneud â'r asesiadau statudol y cyfeirir atynt yn Atodlen 1, os bydd yn rhesymol ymarferol mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, fel a bennir yn y canllawiau ar yr Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd.

**Darparu canlyniadau asesiadau cyfnod allweddol cyntaf i'r Cynulliad Cenedlaethol**

**7**. Rhaid i'r awdurdod erbyn 31 Gorffennaf ym mhob blwyddyn roi i'r Cynulliad Cenedlaethol yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r asesiadau statudol y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 mewn perthynas â phob ysgol a gynhelir ganddo sydd â disgyblion cofrestredig yn y cyfnod allweddol cyntaf sy'n gymwys ar gyfer asesiadau statudol ym mlwyddyn adrodd yr ysgol.

**Darparu canlyniadau cymwysterau allanol a gymeradwywyd i'r Cynulliad Cenedlaethol**

**8**. Rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir a pherchennog pob ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol annibynnol sydd â disgyblion 15, 16, 17 neu 18 oed roi i'r Cynulliad Cenedlaethol y manylion hynny y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn amdanynt ynghylch y cymwysterau y rhoddwyd enwau disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar eu cyfer, a'r wybodaeth arall y cyfeirir ati-

(a) yn achos ysgol sy'n darparu gwybodaeth mewn perthynas â disgyblion 15 oed, yn Rhan 1 o Atodlen 2; neu

(b) yn achos ysgol sy'n darparu gwybodaeth mewn

## PART 2

Provision of Information by Head Teacher

**Provision of information by head teacher to governing body**

**5**. The head teacher of every maintained school must, each year, make available to the governing body information about the matters mentioned in Schedules 1 to 3 for the purpose of enabling the governing body to comply with their obligations in respect of those matters.

## PART 3

Provision of Information to the National Assembly and Local Education Authorities

**Provision of first key stage assessment results to local education authorities**

**6**. The governing body of every maintained school which, in the reporting school year, has registered pupils in the first key stage who are eligible for statutory assessments must, each year, provide to the authority the information relating to statutory assessments referred to in Schedule 1, where reasonably practicable in machine readable form, as specified in the Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance.

**Provision of first key stage assessment results to the National Assembly**

**7**. The authority must by 31st July each year provide the National Assembly with the information relating to statutory assessments referred to in Schedule 1 in relation to all the schools which it maintains which have registered pupils in the first key stage who are eligible for statutory assessments in the reporting school year.

**Provision of results of approved external qualifications to the National Assembly**

**8**. The governing body of every maintained school and the proprietor of every non-maintained special school or independent school with pupils aged 15, 16, 17 or 18 must provide the National Assembly with such particulars as the National Assembly requests relating to approved external qualifications for which registered pupils at the school were entered, and such other information as is referred to-

(a) in the case of a school providing information in respect of pupils aged 15, in Part 1 of Schedule 2; or

(b) in the case of a school providing information in

perthynas â disgyblion 16, 17 neu 18 oed, yn Rhan 2 o Atodlen 2

wrth gael cais ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol am yr wybodaeth honno o fewn y cyfnod a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y cyfryw gais.

**Darparu gwybodaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol am absenoldebau wedi'u hawdurdodi ac absenoldebau heb eu hawdurdodi**

**9**. Rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir a pherchennog pob ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol annibynnol roi i'r Cynulliad Cenedlaethol y manylion hynny y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn amdanynt ynghylch absenoldebau wedi'u hawdurdodi ac absenoldebau heb eu hawdurdodi am flwyddyn adrodd yr ysgol wrth gael cais ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol am yr wybodaeth honno o fewn y cyfnod a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y cyfryw gais.

**RHAN 4**

Darparu gwybodaeth

**Darparu gwybodaeth am asesiadau yr ail a thrydydd cyfnod allweddol i'r Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol**

**10**.-(1) Bob blwyddyn ar neu cyn y dyddiad a bennir yn y canllawiau ar yr Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd am flwyddyn adrodd yr ysgol rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir, sydd, ym mlwyddyn adrodd yr ysgol, â disgyblion cofrestredig yn yr ail gyfnod allweddol sy'n gymwys i asesiadau statudol, ddarparu gwybodaeth i'r Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol sy'n ymwneud â'r asesiadau statudol y cyfeirir atynt yn Rhan 1 o Atodlen 3, os bydd yn rhesymol ymarferol mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, fel a bennir yn y canllawiau ar yr Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd.

(2) Bob blwyddyn ar neu cyn y dyddiad a bennir yn y canllawiau ar yr Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd am y flwyddyn adrodd yr ysgol rhiad i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir, sydd, ym mlwyddyn adrodd yr ysgol, â disgyblion cofrestredig yn y trydydd cyfnod allweddol sy'n gymwys i asesiadau statudol, ddarparu gwybodaeth i'r Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol sy'n ymwneud â'r asesiadau statudol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3, os bydd yn rhesymol ymarferol mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, fel a bennir yn y canllawiau ar yr Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd.

respect of pupils aged 16, 17 or 18, in Part 2 of Schedule 2

upon receiving a written request from the National Assembly for such information within the period specified by the National Assembly in such a request.

**Provision of information about authorised and unauthorised absence to the National Assembly**

**9**. The governing body of every maintained school and the proprietor of every non-maintained special school or independent school must provide the National Assembly with the information the National Assembly requests about authorised and unauthorised absences for the reporting school year upon receiving a written request from the National Assembly for such information within the period specified by the National Assembly in such a request.

**PART 4**

Provision of Information

**Provision of information about second and third key stage assessments to the National Data Collection Agency**

**10**.-(1) The governing body of every maintained school which, in the reporting school year, has registered pupils in the second key stage who are eligible for statutory assessments, must, each year, on or before the date specified in the Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance for the reporting year, provide to the National Data Collection Agency the information relating to statutory assessments referred to in Part 1 of Schedule 3, where reasonably practicable in machine readable form, specified in the Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance.

(2) The governing body of every maintained school which, in the reporting school year, has registered pupils in the third key stage who are eligible for statutory assessments, must, each year, on or before the date specified in the Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance for the reporting year, provide to the National Data Collection Agency the information relating to statutory assessments referred to in Part 2 of Schedule 3, where reasonably practicable in machine readable form, specified in the Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance.

**Darparu gwybodaeth am asesiadau yr ail a thrydydd cyfnod allweddol i'r asiantaeth farcio allanol**

**11**.-(1) Bob blwyddyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y diwrnod olaf yn yr ysgol pan roddir profion Cwricwlwm Cenedlaethol i'r disgyblion hynny ym mhob pwnc perthnasol, rhaid i gorff pob ysgol a gynhelir, sydd ym mlwyddyn adrodd yr ysgol, â disgyblion cofrestredig yn yr ail a thrydydd cyfnod allweddol sydd yn gymwys ar gyfer asesiadau statudol, ddarparu'r wybodaeth y cyfeirir ati yn Rhan 3 o Atodlen 3 mewn perthynas â disgyblion yn yr ail gyfnod allweddol, a'r wybodaeth y cyfeirir ati yn Rhan 4 o Atodlen 3 mewn perthynas â disgyblion yn y trydydd cyfnod allweddol, i'r asiantaeth farcio allanol.

(2) Bob blwyddyn ar neu cyn y dyddiad a bennir yn y canllawiau ar yr Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd am flwyddyn adrodd yr ysgol, rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir, sydd, ym mlwyddyn adrodd yr ysgol sydd yn gymwys ar gyfer asesiadau statudol, ddarparu'r i'r asiantaeth farcio allanol mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant yr wybodaeth a bennir yn Rhan 5 o Atodlen 3.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

30 Mawrth 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 p.38.

**Provision of information about second and third key stage assessments to the external marking agency**

**11**.-(1) The governing body of every maintained school which, in the reporting school year, has registered pupils in the second or third key stage who are eligible for statutory assessments, must, each year, as soon as reasonably practicable after the last school day on which NC tests are administered to those pupils in each relevant subject, provide the information referred to in Part 3 of Schedule 3 in respect of pupils in the second key stage, and the information referred to in Part 4 of Schedule 3 in respect of pupils in the third key stage, to the external marking agency.

(2) The governing body of every maintained school which, in the reporting school year, has registered pupils who are in the second or third key stage who are eligible for statutory assessments, must, each year, on or before the date specified in the Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance for the reporting year, provide to the external marking agency in machine readable form the information referred to in Part 5 of Schedule 3.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

30th March 2004

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 c.38.

## ATODLEN 1

## DARPARU GWYBODAETH I AWDURDODAU ADDYSG LLEOL: CANLYNIADAU CYFNOD ALLWEDDOL CYNTAF

Rheoliad 6

**1**. O ran pob disgybl cofrestredig yn y cyfnod allweddol cyntaf, rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf neu, os oes mwy nag un, yna pob un o'r enwau cyntaf ac, os yw'r wybodaeth mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, rhif unigryw'r disgybl.

**2**. O ran pob disgybl o'r fath, canlyniadau eu hasesiadau statudol ac os nad yw rhai o'r canlyniadau hynny neu'r cyfan ohonynt ar gael a oedd y disgybl yn esempt o'r asesiadau o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002 neu a oedd yn absennol.

## SCHEDULE 1

## PROVISION OF INFORMATION TO LOCAL EDUCATION AUTHORITIES: FIRST KEY STAGE RESULTS

Regulation 6

**1**. In respect of each registered pupil in the first key stage, the pupil's gender, date of birth and surname followed by the first name or, if more than one, each first name and, where such information is provided in machine readable form, the pupil's unique pupil number.

**2**. In respect of each such pupil, the results of their statutory assessments and where some or all of those results are not available whether the pupil was exempted from the assessments under section 113 or 114 of the 2002 Act or was absent.

## ATODLEN 2

## DARPARU GWYBODAETH I'R CYNULLIAD: CYMWYSTERAU ALLANOL A GYMERADWYWYD

Rheoliad 8

### RHAN 1

Disgyblion 15 Oed

**1**. Nifer y disgyblion cofrestredig 15 oed.

**2**. Yn achos pob un disgybl o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff 1 y rhoddwyd ei enw ar gyfer un neu fwy o gymwysterau allanol a gymeradwywyd ar lefel 2 NQF neu is na hynny yn ystod blwyddyn adrodd yr ysgol neu unrhyw flwyddyn ysgol cyn y flwyddyn honno rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf neu, os oes mwy nag un, yna pob un o'r enwau cyntaf ac, os yw'r wybodaeth mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, rhif unigryw'r disgybl.

**3**. Yn achos pob un disgybl o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff 1 a gyflawnodd unrhyw gymhwyster allanol a gymeradwywyd, yn ystod blwyddyn adrodd yr ysgol neu unrhyw flwyddyn ysgol cyn y flwyddyn honno y manylion canlynol am bob cymhwyster o'r fath a gyflawnwyd-

(a) y corff dyfarnu;

(b) teitl y pwnc;

(c) y math a'r lefel;

(ch) y canlyniad; ac

(d) y dyddiad dyfarnu.

## SCHEDULE 2

## PROVISION OF INFORMATION TO THE NATIONAL ASSEMBLY: APPROVED EXTERNAL QUALIFICATIONS

Regulation 8

### PART 1

Pupils Aged 15

**1**. The number of registered pupils aged 15.

**2**. In the case of each such pupil referred to in paragraph 1 who was entered for one or more approved external qualifications at NQF level 2 or below during the reporting school year or any of the school years preceding that year the pupil's gender, date of birth and surname followed by the first name or, if more than one, each first name and, where such information is provided in machine readable form, the pupil's unique pupil number.

**3**. In the case of each such pupil referred to in paragraph 1 who, during the reporting school year or any of the school years preceding that year, achieved any approved external qualification, the following details for each such qualification achieved-

(a) the awarding body;

(b) the subject title;

(c) the type and level;

(d) the result; and

(e) the date awarded.

**RHAN 2**

Disgyblion 16, 17 neu 18 oed

**4**. Nifer y disgyblion cofrestredig 16, 17 neu 18 oed y rhoddwyd eu henwau ar gyfer un neu fwy o gymwysterau allanol a gymeradwywyd neu fwy yn NQF lefel 3 neu uwch na hynny yn ystod blwyddyn adrodd yr ysgol.

**5**. Yn achos pob disgybl y cyfeirir ato ym mharagraff 4 yr wybodaeth ganlynol rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf neu, os oes mwy nag un, yna pob un o'r enwau cyntaf ac, os yw'r wybodaeth mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, rhif unigryw'r disgybl.

**6**. Yn achos pob un disgybl o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff 4 a gyflawnodd unrhyw gymhwyster allanol a gymeradwywyd, yn ystod blwyddyn adrodd yr ysgol neu unrhyw flwyddyn ysgol cyn y flwyddyn honno y manylion canlynol am bob cymhwyster o'r fath a gyflawnwyd-

(a) y corff dyfarnu;

(b) teitl y pwnc;

(c) y math a'r lefel;

(ch) y canlyniad; ac

(d) y dyddiad dyfarnu.

**PART 2**

Pupils Aged 16, 17 or 18

**4**. The number of registered pupils aged 16, 17 or 18 who were entered for one or more approved external qualifications at NQF level 3 or above during the reporting school year.

**5**. In the case of each pupil referred to in paragraph 4 the following information the pupil's gender, date of birth and surname followed by first name or, if more than one, each first name and, where such information is provided in machine readable form, the pupil's unique pupil number.

**6**. In the case of each such pupil referred to in paragraph 4 who, during the reporting school year or any of the school years preceding that year, achieved any approved external qualification, the following details for each such qualification achieved-

(a) the awarding body;

(b) the subject title;

(c) the type and level;

(d) the result; and

(e) the date awarded.

## ATODLEN 3

## DARPARU GWYBODAETH I'R ASIANTAETH CASGLU DATA CENEDLAETHOL A'R ASIANTAETH FARCIO ALLANOL

Rheoliadau 10 ac 11

**RHAN 1**

Asesiadau yr Ail Gyfnod Allweddol: Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol

**1**.-(1) O ran pob disgybl cofrestredig yn yr ail gyfnod allweddol, rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf neu, os oes mwy nag un, yna pob un o'r enwau cyntaf ac, os yw'r wybodaeth mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, rhif unigryw'r disgybl.

(2) O ran pob disgybl o'r fath, yr wybodaeth ganlynol, pan fo'n briodol, mewn perthynas â phob un o'r pynciau perthnasol-

(a) unrhyw ganlyniad yn ôl asesiad tasg Cwricwlwm Cenedlaethol;

(b) y lefel ar lefel graddfa'r Cwricwlwm

## SCHEDULE 3

## PROVISION OF INFORMATION TO THE NATIONAL DATA COLLECTION AGENCY AND THE EXTERNAL MARKING AGENCY

Regulations 10 and 11

**PART 1**

Second Key Stage Assessments: National Data Collection Agency

**1**.-(1) In respect of each registered pupil in the second key stage, the pupil's gender, date of birth and surname followed by the first name or, if more than one, each first name and, where such information is provided in machine readable form, the pupil's unique pupil number.

(2) In respect of each such pupil, the following information, as appropriate, in respect of each relevant subject-

(a) any outcome as determined by NC task assessment;

(b) the level on the National Curriculum level

Cenedlaethol a gyflawnodd y disgybl yn ôl asesiad athrawon;

(c) a aseswyd y disgybl gan athrawon wrth weithio tuag at lefel 1;

(ch) a oedd y disgybl yn esempt rhag asesiad athrawon o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002; neu

(d) a ydyw canlyniad asesiad athrawon heb fod ar gael oherwydd absenoldeb y disgybl.

scale achieved by the pupil as determined by teacher assessment;

(c) whether the pupil was assessed by a teacher as working towards level 1;

(d) whether the pupil was exempted from teacher assessment under section 113 or 114 of the 2002 Act; or

(e) whether a teacher assessment result is not available because of the pupil's absence.

**RHAN 2**

Asesiadau y Trydydd Cyfnod Allweddol: Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol

**2**.-(1) O ran pob disgybl cofrestredig yng nghyfnod y trydydd cyfnod allweddol, rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf neu, os oes mwy nag un, yna pob un o'r enwau cyntaf ac, os yw'r wybodaeth mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, rhif unigryw'r disgybl.

(2) O ran pob disgybl o'r fath, yr wybodaeth ganlynol, pan fo'n briodol, mewn perthynas â phob un o'r pynciau perthnasol-

(a) y lefel ar lefel graddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gyflawnodd disgybl yn ôl asesiad athrawon;

(b) a aseswyd disgybl gan athrawon wrth weithio tuag at lefel 1;

(c) a aseswyd disgybl gan athrawon ar lefel ar raddfa lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol o dan y pennawd "Perfformiad Eithriadol";

(ch) a oedd y disgybl yn esempt rhag asesiad athrawon o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002; ac

(d) a ydyw canlyniad asesiad athrawon heb fod ar gael oherwydd absenoldeb disgybl.

**PART 2**

Third Key Stage Assessments: National Data Collection Agency

**2**.-(1) In respect of each registered pupil in the third key stage, the pupil's gender, date of birth and surname followed by the first name or, if more than one, each first name and, where such information is provided in machine readable form, the pupil's unique pupil number.

(2) In respect of each such pupil, the following information, as appropriate, in respect of each relevant subject-

(a) the level on the National Curriculum level scale achieved by the pupil as determined by teacher assessment;

(b) whether the pupil was assessed by a teacher as working towards level 1;

(c) whether the pupil was assessed by the teacher as being at the level of the National Curriculum level scale entitled "Exceptional Performance";

(d) whether the pupil was exempted from teacher assessment under section 113 or 114 of the 2002 Act; and

(e) whether a teacher assessment result is not available because of the pupil's absence.

**RHAN 3**

Asesiadau yr Ail Gyfnod Allweddol: Asiantaeth Farcio Allanol

**3**. O ran pob disgybl cofrestredig yn yr ail gyfnod allweddol, yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phob un o'r pynciau perthnasol-

(a) a oedd y disgybl, ym marn pennaeth yr ysgol, yn gweithio ar lefel 1 neu'n is na hynny ac na roddwyd profion Cwricwlwm Cenedlaethol i'r disgybl;

(b) a oedd y disgybl yn esempt rhag profion Cwricwlwm Cenedlaethol o dan adran 113 neu

**PART 3**

Second Key Stage Assessments: External Marking Agency

**3**. In respect of each registered pupil in the second key stage, the following information in respect of each relevant subject-

(a) whether, in the opinion of the head teacher, the pupil was working at or below level 1 and NC tests were not administered to the pupil;

(b) whether the pupil was exempted from any NC tests under section 113 or 114 of the 2002 Act;

114 o Ddeddf 2002; neu

(c) a ydyw canlyniad prawf Cwricwlwm Cenedlaethol heb fod ar gael am fod y disgybl yn absennol ar y diwrnod y rhoddwyd y prawf Cwricwlwm Cenedlaethol.

or

(c) whether an NC test result is not available because the pupil was absent on the day the NC test was administered.

**RHAN 4**

Asesiadau y Trydydd Cyfnod Allweddol: Asiantaeth Farcio Allanol

**4**. O ran pob disgybl cofrestredig yn y trydydd cyfnod allweddol, yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phob un o'r pynciau perthnasol-

(a) a oedd y disgybl, ym marn pennaeth yr ysgol, yn gweithio ar lefel 2 neu'n is na hynny ac na roddwyd profion Cwricwlwm Cenedlaethol i’r disgybl;

(b) a oedd y disgybl yn esempt rhag profion Cwricwlwm Cenedlaethol o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002; neu

(c) a ydyw canlyniad prawf Cwricwlwm Cenedlaethol heb fod ar gael am fod y disgybl yn absennol ar y diwrnod y rhoddwyd prawf Cwricwlwm Cenedlaethol.

**PART 4**

Third Key Stage Assessments: External Marking Agency

**4**. In respect of each registered pupil in the third key stage, the following information in respect of each relevant subject-

(a) whether, in the opinion of the head teacher, the pupil was working at or below level 2 and NC tests were not administered to the pupil;

(b) whether the pupil was exempted from any NC tests under section 113 or 114 of the 2002 Act; or

(c) whether an NC test result is not available because the pupil was absent on the day the NC test was administered.

**RHAN 5**

Cofrestriadau yr Ail a Thrydydd Cyfnod Allweddol: Asiantaeth Farcio Allanol

**5**. O ran pob disgybl cofrestredig yn yr ail a thrydyddd cyfnod allweddol, rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf neu, os oes mwy nag un, yna pob un o'r enwau cyntaf ac, os yw'r wybodaeth mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, rhif unigryw'r disgybl.

**PART 5**

Second and Third Key Stage registrations: External Marking Agency

**5**. In respect of each registered pupil in the second key stage or third key stage, the pupil's gender, date of birth and surname followed by the first name or, if more than one, each first name and the pupil's unique pupil number.

ATODLEN 4

DIRYMIADAU

Rheoliad 4

| *Rhif* | *Y Rheoliadau sy'n cael eu Dirymu* | *Cyfeirnod* |
|---|---|---|
| 1 | Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 1998 | O.S. 1998/1867 |
| 2 | Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 1999 | O.S. 1999/1470 |

SCHEDULE 4

REVOCATIONS

Regulation 4

| *Number* | *Regulations revoked* | *Reference* |
|---|---|---|
| 1 | The Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 1998 | S.I. 1998/1867 |
| 2 | The Education (School Performance Information) (Wales) (Amendment) Regulations 1999 | S.I. 1999/1470 |

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2004 Rhif 1025 (Cy.122)

## 2004 No. 1025 (W.122)

# ADDYSG, CYMRU

# EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004

The Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 2004

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090927-5

9 780110 909271

£3.00

W64/4/04 ON